Taflen 1

# Gweithgaredd 10: Gwrthsafiad a Chofio

## Geirfa

**Gwrthsemitiaeth:** Gelyniaeth tuag at neu gasineb at Iddewon fel grŵp crefyddol neu ethnig, yn aml gyda gwahaniaethu cymdeithasol, economaidd, neu wleidyddol.

**Gwersyll crynhoi:** Ledled Ewrop oedd wedi'i meddiannu gan yr Almaen, sefydlodd y Natsïaid wersylloedd i gadw ac, os oedd angen, i ladd gelynion y wladwriaeth fel roedden nhw'n cael eu galw, gan gynnwys Iddewon, Roma a Sinti, gwrthwynebwyr gwleidyddol a chrefyddol, aelodau o fudiadau gwrthsafiad cenedlaethol, gwrywgydwyr, ac eraill. Roedd cyfnod carchar mewn gwersyll crynhoi yn ddiderfyn, nid oedd yn gysylltiedig â gweithred benodol, ac nid oedd yn destun unrhyw adolygiad barnwrol. Yn ogystal â gwersylloedd crynhoi, roedd y gyfundrefn Natsïaidd yn rhedeg sawl math arall o wersylloedd gan gynnwys gwersylloedd llafur, gwersylloedd dros dro, gwersylloedd carcharorion rhyfel, a chanolfannau lladd (fel Auschwitz).

**Yr Holocost**: Yr Holocost oedd erledigaeth a difodiant systematig Iddewon Ewrop dan nawdd y wladwriaeth gan yr Almaen Natsïaidd a'i chydweithredwyr rhwng 1933 a 1945. Iddewon oedd y prif ddioddefwyr. Cafodd chwe miliwn o Iddewon eu llofruddio.

**Kindertransport** (Cludiant Plant): Dyma oedd yr enw anffurfiol ar gyfres o ymdrechion achub rhwng 1938 a 1940 a ddaeth â phlant Iddewig o diriogaeth oedd dan reolaeth y Natsïaid i ddiogelwch. Fe wnaeth rhieni Iddewig anfon eu plant ar gludiant oedd wedi'i drefnu i fyw mewn cartrefi plant, gyda theuluoedd maeth, neu gyda pherthnasau pell ym Mhrydain, yr Iseldiroedd, neu Ffrainc. Daeth ymdrechion y Kindertransport â thua 10,000 o blant i ddiogelwch ym Mhrydain.

***Kristallnacht***: Cyfeirir ati fel arfer fel 'Noson y Gwydr Toredig'.[1] Dyma'r enw a gafodd ei roi ar bogrom gwrth-Iddewig treisgar Tachwedd 9 a 10, 1938. Wedi'i ysgogi'n bennaf gan swyddogion y blaid Natsïaidd a'r SA (Troswyr Storm Natsïaidd), digwyddodd y pogrom ledled yr Almaen, Awstria oedd wedi'i chyfeddiannu, a rhanbarth Sudetenland yn Tsiecoslofacia.

**Pogrom**: Gair Rwsieg sy'n golygu 'wneud llanastr, dymchwel yn dreisgar'. Yn hanesyddol, mae'r term yn cyfeirio at ymosodiadau treisgar, oedd fel arfer wedi eu cynllunio, gan boblogaethau lleol nad oedden nhw'n Iddewon ar Iddewon.

## Ffynhonnell

United States Holocaust Memorial Museum, *Holocaust Encyclopaedia: Glossary* <https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/glossary> [cyrchwyd 03 Hydref 2022].

[1] Mae Inge Hack yn cyfeirio at Kristallnacht fel "Crystal Night" yn ei thystiolaeth fideo.

European Commission

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation